

DATGANIAD SEFYLLFA

Safonau Masnach

Gyrru gwelliant o fewn Iechyd y Cyhoedd

CRYNODEB GWEITHREDOL

Eistedd Gwasanaethau Safonau Masnach o fewn Adrannau Gwarchod y Cyhoedd neu Wasanaethau Rheoleiddio awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae cylch gwaith y Gwasanaethau yn eang a thrwy orfodi deddfwriaeth yr UE, y DU a Llywodraeth Cymru, maent yn gwasanaethu i sicrhau amgylchedd masnachu teg i ddefnyddwyr a busnesau ag enw da.

Fel gwasanaeth sy'n wynebu'r cyhoedd, mae Safonau Masnach mewn sefyllfa ddelfrydol i ddylanwadu ar Agenda Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru, ac mae'n gwneud hyn drwy amryw o ffyrdd gan gynnwys gorfodi, cyngor i fusnesau, cyfryngu a chodi ymwybyddiaeth ar draws ystod eang o faterion. O ganlyniad i'w rôl unigryw, mae Safonau Masnach yng Nghymru'n chwaraewr allweddol wrth gyflawni nifer o strategaethau Llywodraeth Cymru ar Iechyd ac ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae'r meysydd allweddol y mae Safonau Masnach yn cyfrannu at well canlyniadau Iechyd Cyhoeddus i Gymru fel a ganlyn

- Tybaco
- Alcohol
- Deiet Iach
- Diogelwch Cynnyrch ac atal damweiniau
- Galluogi trigolion hŷn i fyw yn annibynnol am gyfnod hwy
- Cynhwysiant Ariannol

NODAU, AMCANION AC YSGOGWYR Y LLYWODRAETH

Un o'r nodau llesiant sydd wedi'i gynnwys yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015* yw **Cymru iachach**; cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl yn cael ei uchafu a lle mae dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i Iechyd y dyfodol yn cael eu deall.

Nododd nifer o Strategaethau manwl Llywodraeth Cymru y dull o fynd ati yng Nghymru o ran pryderon sy'n ganolog i iechyd y genedl, yn fwyaf nodedig: -

- Mae *Cynllun Gweithredu Rheoli Tybaco Cymru* yn ceisio lleihau cyffredinolrwydd ysmegu ymhlith y boblogaeth sy'n oedolion i lai na 5%, a thrwy hynny sicrhau statws di-fwg.
- Y *Cynllun Cyflenwi Camddefnyddio Sylweddau 2019 - 2022* sy'n ceisio lleihau niwed drwy agwedd amlasiantaethol i'r problemau camddefnyddio alcohol a chyffuriau yng Nghymru
- *Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar gyfer Cymru* – sy'n adnabod gweledigaeth Llywodraeth Cymru i bawb yng Nghymru gael mynediad at wasanaethau ariannol priodol a fforddiadwy, yn cael eu cefnogi gan wasanaethau gwybodaeth a chyngor sicr o ansawdd uchel a bod â'r gallu a'r cymhelliant ariannol i elwa ar y gwasanaethau ariannol sydd ar gael iddynt

Yn ogystal, mae deddfwriaeth i reoleiddio labelu bwyd, yn fwyaf arbennig Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014, a hefyd bod hylendid porthiant yn bodoli i ddiogelu cyfanrwydd a diogelwch y gadwyn fwyd i drigolion ac ymwelwyr â Chymru.

Mae pob cyngor yng Nghymru yn amlinellu ei **flaenoriaethau corfforaethol lleol** ac yn cynhyrchu **cynlluniau gwelliant**, ac maent yn anochel yn darparu ymrwymiad i wella'r economi leol.

CYFRANIAD AT YR AGENDA

Drwy orfodi deddfwriaeth sy'n gwahardd **gwerthiant dan oed** o gynhyrchion fel tybaco, alcohol a thoddyddion, mae Safonau Masnach yn chwarae rhan allweddol wrth atal pobl ifanc rhag eu prynu a chael eu 'bachu'. Yn ogystal, rhoddir cyngor a gwybodaeth i fanwerthwyr i'w cynorthwyo i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith.

Mae gan safonau masnach hefyd gyfrifoldeb dros orfodi'r **gwaharddiad arddangos tybaco** ac am **labelu a chyflwyniad tybaco** yn y gadwyn gyflenwi. Er bod y rheolaethau hyn yn effeithiol o fewn y fasnach gyfreithlon, mae **tybaco anghyfreithlon** yn parhau i achosi problem sylweddol yng Nghymru. Mae WHOTS yn dod yn fwyfwy pryderus am y niwed iechyd a achosir gan dybaco anghyfreithlon gan fod yn hanner pris cynnyrch dilys, mae'n dileu'r cymhelliant pris i ysmygwyr roi'r gorau iddi. Gan fod cyffredinolrwydd ysmegu ar ei uchaf yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig mae'r ffaith bod tybaco anghyfreithlon yn parhau ar gael sy'n gysylltiedig â throseddoldeb ehangach, dim ond yn gwasanaethu i waethygu anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Mae Safonau Masnach Cymru yn falch o gefnogi ymgyrch 'Dim Esgus - Byth' Llywodraeth Cymru i annog adrodd am dybaco anghyfreithlon ac mae hyn yn ategu'n dda at orfodi tybaco anghyfreithlon Ymgyrch CeCe parhaus.

Mae Safonau Masnach Cymru wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o weithredu deddfwriaeth flaenllaw Llywodraeth Cymru sydd wedi gosod **isafbris uned ar gyfer alcohol**. Wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â'r pryderon iechyd ynghylch yfed cost isel, cynhyrchion alcohol uchel, mae gofynion y ddeddfwriaeth wedi'u hegluro i fanwerthwyr yn ystod ymweliadau wyneb yn wyneb â'r holl fanwerthwyr alcohol ledled Cymru. Yn fwy diweddar mae'r ymweliadau cychwynnol hyn wedi'u dilyn ac mae lefelau uchel o gydymffurfio wedi'u nodi.

Ar adeg o bryder cynyddol am lefelau gordewdra a deiet gwael yn gyffredinol, mae'r Gwasanaethau Safonau Masnach yn chwarae rôl hanfodol, o'r fferm i'r fforc, wrth sicrhau **safonau ansawdd a maethol**

ein deiet a chyfanwydd y gadwyn fwyd ei hun. Mae llawer o enghreifftiau o waith cydgysylltiedig ar draws Cymru yn hyn o beth, ac yn nodedig yn eu plith yr arolygon arloesol ar safonau maethol mewn ysgolion ac mewn cartrefi preswyl, a'r ddau wedi arwain at well dealltwriaeth a gwelliant mewn safonau maethol yn y lleoliadau hynny. Yn ogystal, mae gwaith parhaus o ran gofynion bwyd anifeiliaid, labelu alergenau, ac yn sgil sgandal cig ceffyl wedi dod â gwelliannau parhaol mewn ymwybyddiaeth o fasnach a chydymffurfiaeth.

Wrth orfodi cyfraith **diogelwch cynnyrch**, mae gan Safonau Masnach rôl a ddiffinnir yn glir mewn atal damweiniau ac anafiadau, gan weithio ar bob lefel o'r gadwyn gyflenwi. Drwy gadw golwg ar y farchnad, gellir adnabod cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio a chymryd camau priodol i sicrhau bod cyflenwyr yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Gall cynhyrchion fod wedi hen sefydlu neu'n newydd i'r farchnad, fel yn achos poblogrwydd bwrdd hofran 2015, ac ehangu'r systemau cyflenwi nicotin electronig (e-sigarennau) yn gyflym.

Mae cydlynu arolygon diogelwch cynnyrch yn galluogi ymyriadau penodol i'r sector ledled Cymru, roedd enghraifft ddiweddar yn ystod y pandemig coronafeirws, pan oedd Gwasanaethau Safonau Masnach yn rhan o brofi hylif diheintio dwylo, mygydau wyneb a PPE eraill ar gyfer cydymffurfio â manylebau diogelwch.

Mae cyfrifoldeb gorfodi am ddiogelwch rhai o'r cynhyrchion defnyddwyr mwyaf peryglus yn disgyn ar Safonau Masnach, yn fwyaf arbennig petroliwm a than gwyllt.

Trwy ei waith yn **diogelu oedolion hŷn bregus**, mae Gwasanaethau Safonau Masnach yn chwarae rhan hynod bwysig mewn atal sgamiau ac wrth warchod rhag digwyddiadau o droseddau stepen drws. Yn ogystal â chymryd camau cadarn yn erbyn y twyllwyr sy'n cyflawni'r troseddau ofnadwy hyn, mae Gwasanaethau Safonau Masnach yn gallu grymuso trigolion i deimlo'n hyderus wrth osgoi peryglon sgamiau marchnata torfol a throseddau stepen drws, yn aml trwy fentrau syml fel Parthau Rheoli Galw Diwahoddiad. Mae hyn yn elfen hanfodol o ran galluogi trigolion hŷn yn arbennig i deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain a gallu parhau i fyw'n annibynnol; gyda buddion amlwg i'r seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn olaf, mae cyfraniad y Safonau Masnach i agenda **Cynhwysiant Ariannol** yn cael effaith gadarnhaol o ran iechyd meddwl rhai o'r teuluoedd tlotaf a mwyaf bregus yng Nghymru. Trwy waith Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru, mae pump o unigolion wedi cael eu carcharu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf am eu gweithgareddau benthycwyr arian didrwydded. Mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi drwy gydol y broses a thu hwnt i sicrhau eu bod mewn gwell sefyllfa yn y dyfodol i gael credyd fforddiadwy, ac mae digwyddiadau ymgysylltu cymunedol ar draws Cymru yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r problemau a achosir gan fenthycwyr arian didrwydded i gynulleidfa ehangach.

CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyllid sy'n caniatáu i awdurdodau lleol gefnogi Gwasanaethau Safonau Masnach; Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i'r Agenda Iechyd Cyhoeddus trwy ei fframwaith deddfwriaethol blaenllaw. Fel yr amlygwyd uchod, mae Safonau Masnach yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni cyfrifoldebau iechyd a lles awdurdodau lleol ac mae'n cyfrannu ymhellach at amcanion Cyffredinol Iechyd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn: <https://safonaumasnach.llyw.cymru/cym/home/>

Gorffennaf 2022